Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Estyn gwahoddiad i'r trydydd sector fynd i weithdai ynghylch 'dyfodol sieciau'

Mae nifer y bobl sy'n defnyddio sieciau fel ffordd o dalu yn lleihau'n gyflym – yn 2009, bu gostyngiad o 12% yn y defnydd o sieciau.

Gan fod y ffigurau'n parhau i ostwng, mae'r Bwrdd Cynghori ar Daliadau yn gobeithio y bydd y drefn talu gyda sieciau wedi dod i ben yn llwyr erbyn 31 Hydref 2018. Fodd bynnag, mae nifer helaeth o bobl yn dal i'w defnyddio – yn enwedig yn y trydydd sector, sy'n cynnwys llawer o grwpiau sy'n dal yn ddibynnol ar sieciau er mwyn derbyn a gwneud taliadau.

I helpu'r grwpiau hynny sy'n dal yn ddibynnol ar sieciau, mae'r Bwrdd Cynghori ar Daliadau wedi trefnu gweithdai ar Ddyfodol Sieciau, a gynhelir yng Nghaer ar 14 Gorffennaf ac yng Nghaerdydd ar 15 Gorffennaf rhwng 6.30pm a 9pm (lleoliadau i'w cadarnhau). Bydd y sesiynau hyn yn trin a thrafod pam mae rhai mudiadau'n dal i ddibynnu ar sieciau, opsiynau ymarferol eraill, a beth fyddai ei angen ar eich grŵp chi er mwyn newid ei ddulliau o dalu.

Dim ond lle i 40 sydd ym mhob un o'r sesiynau hyn. O'r herwydd, ni fydd y Bwrdd ond yn derbyn un person o bob mudiad sydd â diddordeb.

Am ragor o wybodaeth, neu i archebu lle mewn gweithdy, ewch i http://tinyurl.com/2crtonn.

Gwahoddiad i wneud cais am Wobrau IMPACT

Gwahoddir elusennau bach a chanolig eu maint sy'n gweithio ym maes gofal iechyd i wneud cais am wobrau a fydd rhoi arian craidd iddynt, hyfforddiant a chydnabyddiaeth genedlaethol.

Bydd hyd at 20 o Wobrau IMPACT yn cael eu dyfarnu, gyda phrif enillydd yn derbyn £35,000, naw enillydd arall yn derbyn £25,000 a hyd at 10 arall sy'n cael clod arbennig yn derbyn £5,000 neu £3,000.

Does dim rhaid i'r ymgeiswyr am Wobrau IMPACT, a noddir gan GlaxoSmithKline ac a reolir gan Gronfa'r Brenin, gyflwyno prosiectau newydd gan fod y cais yn canolbwyntio ar yr hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni. I fod yn gymwys, mae'n rhaid eich bod yn gweithredu ers o leiaf tair blynedd, ag incwm rhwng £10,000 a £1.5 miliwn ac yn gweithio mewn maes sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y DU.

Mae'r gwobrau'n cael eu gweld fel 'nod ansawdd' ar gyfer elusennau sy'n gweithio ym maes gofal iechyd. Bydd mudiadau sy'n ennill Gwobr IMPACT neu sy'n cael canmoliaeth arbennig hefyd yn cael eu gwahodd i anfon hyd at ddau gynrychiolydd i gymryd rhan yn Rhwydwaith Datblygu Gwobrau IMPACT sy'n darparu hyfforddiant rhad ac am ddim gwerth £4,000 i bob mudiad.

Cynhaliwyd rhaglen hyfforddiant 2010 dros gyfnod o bum niwrnod a chanolbwyntiai ar: llywodraethu a rheolaeth ariannol, sgiliau arwain, codi arian, comisiynu ym maes iechyd, gwerthuso, rheoli adnoddau dynol a sgiliau cyflwyno.

I wneud cais am Wobr IMPACT ewch i www.kingsfund.org.uk/gskimpactawards. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw Dydd Gwener 24 Medi 2010.

Mae prynu a gwerthu ar-lein mor hawdd â 3i3

Mae gwefan newydd ac unigryw yn helpu i roi hwb i gyllid grwpiau trydydd sector yng Nghymru drwy werthu ar-lein. Yn ddiweddar, daeth y farchnadfa ar-lein a sefydlwyd gan WCVA ar gyfer ei aelod fudiadau, sef 3i3.org.uk, yn fyw yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus.

Mae'r grwpiau a fu'n profi'r gwasanaeth, gan gynnwys y cwmni ailgylchu gwydr ym Mhowys, Ten Green Bottles, y masnachwyr moesegol, Not Just Nuts a Phrosiect Cludiant Cymunedol Llanwrtyd, eisoes wedi dechrau gwerthu nwyddau a gwasanaethau.

Yn ôl Cymdeithas Tai YMCA Caerdydd, mae'r safle yn ei galluogi i hyrwyddo ei gwasanaethau i helpu pobl ddigartref mewn argyfwng 'a gallai fod yn ddechrau gwell dyfodol iddynt'. Dywedodd Mandy Smithson, Swyddog Cyllid a Datblygu: 'Mae'r wefan 3i3 yn syniad gwych, ac rydym wrth ein bodd ein bod wedi cael cynnig bod yn rhan o'r treial. Mae'r safle wedi rhoi cyfle i ni arddangos rhai o'n gwasanaethau, a amlygir yn ein catalog Anrhegion Meddylgar.

'Ar y diwrnod cyntaf, fe dderbynion ni rodd i dalu am gost gwely brys am noson, a roddwyd yn anrheg pen-blwydd 21ain yn ddiweddarach. Byddwn yn sicr yn parhau i ddefnyddio'r safle ac roeddem yn ddiolchgar am yr arbenigedd technegol a'r help a gawsom drwyddi draw.'

Mae'n bosib gwerthu bron iawn unrhyw beth ar y wefan ddwyieithog – o ddillad ac anrhegion moesegol i ddefnyddiau ysgrifennu, neu hyd yn oed llogi lleoliad neu wasanaethau arlwyo. Gellir rhoi hysbyseb ar y wefan am ddim, a bydd yr holl drafodion yn digwydd ar weinydd diogel a saff. Mae'n hawdd ac yn syml rhestru eitemau gyda chanllawiau ar-lein a staff WCVA wrth law i helpu.

'Mae'n hawdd iawn defnyddio 3i3. Ar ôl cofrestru, caiff gwerthwyr ganllaw i ddefnyddwyr a fydd yn eu helpu i'w tywys drwy'r broses o restru rhywbeth ar werth.

Gallaf hefyd gynnig help ychwanegol gyda chreu rhestrau neu roi cyngor ar sut i lwytho lluniau i fyny a sicrhau bod eu heitemau yn dal sylw,' meddai Prif Weithredwr WCVA Graham Benfield OBE.

'Gall fod yn anodd i grwpiau trydydd sector godi arian - yn arbennig felly yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni - felly gall unrhyw ffynhonnell refeniw newydd fod yn allweddol. Nod y wefan yw rhoi cyfle i fudiadau gynyddu refeniw, yn ogystal â datblygu perthnasau cryf gyda'r naill a'r llall. Ond nid yw wedi'i chyfyngu i werthu i'r trydydd sector. Caiff y cyhoedd brynu gan 3i3 - sy'n golygu bod digon o ffyrdd i chi godi arian.'

Dywedodd Siân Richards, Swyddog Datblygu Masnachol gyda Not Just Nuts, mai dim ond yn ddiweddar yr oedd y cwmni wedi dechrau defnyddio'r safle, ond roedd eisoes wedi derbyn archeb am fasged o gnau. 'Rydym wedi llwytho ychydig mwy o gynnyrch i fyny'n ddiweddar, felly rydym ni'n ehangu'r dewis sydd ar gael gennym,' ychwanegodd.

Dywedodd Jan Lucocq, Swyddog Datblygu Prosiect Cludiant Cymunedol Llanwrtyd (Ailgylchu ar gyfer Digwyddiadau) bod ei mudiad yn ddiolchgar am y cyfle i fedru arddangos ei waith ar 3i3. 'Roeddem ni'n rhan o'r treial a chawsom gefnogaeth ardderchog gan WCVA, roedd yn hawdd ei sefydlu a byddwn yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth.'

Dywedodd Lorraine Powers, Rheolwr Gyfarwyddwr Ten Green Bottles: 'Roeddem wrth ein bodd yn derbyn ein harcheb gyntaf ar y wefan, ychydig funudau'n unig ar ôl iddi fynd yn fyw. Marchnadfa ardderchog ar gyfer mentrau cymdeithasol!'

Bydd 3i3 yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Ewch i www.3i3.org.uk. I gael rhagor o wybodaeth am werthu, anfonwch e-bost at enquiries@3i3.org.uk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.